

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd  
COFNODION CYFARFOD MISOL  
7 Mehefin 2018 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

**Trafodaeth efo'r Cynghorydd Craig ap Iago am efo'r Cynghorydd Craig ap Iago, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros Tai, Hamdden a Diwylliant am newidiadau i Wasnaeth Ieuenctid Gwynedd**

Croesawyd y Cynghorydd Craig ap Iago i'r cyfarfod. Eglurodd y newidiadau sydd i'w gwneud i Wasanaeth Ieuenctid Gwynedd, sef i ganoli'r Gwasanaeth Ieuenctid yn bennaf mewn un prif leoliad ymhob dalgych ysgol. Gwneir hyn er mwyn arbed arian a gwireddu arbedion ariannol i Gyngor Gwynedd, ond hefyd er mwyn cynnig mwy o amrywiaeth o weithgareddau a sicrhau cysondeb darpariaeth ar draws y gwasanaeth.

Cafwyd proses ymgynghori, a bu ymgynghoriad manwl gyda'r bobl ifanc fydd yn cael eu heffeithio, ac yn gyffredinol roeddynt o blaid y newidiadau.

Tua 14% o bobl ifanc Gwynedd sy'n defnyddio'r clybiau Ieuenctid, ac felly mae yna le i gynyddu'r niferoedd.

Eglurwyd y sefyllfa ym Montnewydd, sef bod Clwb Ieuenctid wedi bod yn cyfarfod am ddwy noson yr wythnos ar un cyfnod, er bod hynny i lawr i un bellach, ond mi roedd galw am y gwasanaeth. Y pryder yw na fyddai llawer o blant Bontnewydd am deithio allan o Fontnewydd, e.e. i Gaernarfon unwaith i'r trefniadau newydd ddechrau fis Medi. Yn ogystal wedi difodiant y Clwb Ieuenctid, byddai'r Ganolfan yn colli incwm rhent go sylweddol bob blwyddyn.

Mynegwyd fod gan y Cyngor Cymuned y deisfyriad i gynorthwyo i gynnal Clwb Ieuenctid ym Montnewydd, ond byddai'n anodd iawn cyfiawnhau cyfraniad ariannol mawr, yn enwedig o gofio'r golled ariannol i'r Ganolfan sy'n digwydd beth bynnag. Deallir y byddai angen tua £3,000 y flwyddyn cyn ystyried cynnal Clwb Ieuenctid.

Dywedodd y Cynghorydd Craig ap Iago y byddai Cyngor Gwynedd yn gwneud ymdrech resymol i gynorthwyo i ddarparu beth y byddai pobl ifanc ei eisiau ym Montnewydd o ran gwasanaeth Ieuenctid. Gallasai hynny olygu cyfraniad ariannol am gyfnod, neu tâl am ddefnyddio'r Ganolfan. Agwedd Cyngor Gwynedd oedd pe byddai'r Cyngor Cymuned yn dweud beth yr hoffent ei gyflawni, yna byddai Cyngor Gwynedd yn rhoi ystyriaeth i beth sydd ei angen, ac yn cynorthwyo. Bydd y gwasanaeth newydd yn dechrau o fis Medi, felly mae angen gwneud unrhyw benderfyniad yn gymharol fuan.

Awgrymodd y Cynghorydd Geraint Strello bod angen gwybod pa fath o wasanaeth y byddai pobl ifanc ei eisiau cyn rhoi ystyriaeth i unrhyw ddarpariaeth ym Montnewydd. Cytunwyd y byddai trafodaeth efo'r Uwch Reolwr sy'n goruchwyllo'r gwasanaeth yn y cyfarfod nesaf yn ffordd o hyrwyddo hyn, a rhoi cymorth i'r Cyngor Cymuned ddod i benderfyniad o ran y mater.

## **PRESENNOL :**

**Cynghorwyr:** Dafydd Iwan, Emyr Williams, Gwyneth Thomas, Geraint Strello, Mirain Llwyd Owen, Wynn Roberts, Math Williams, Peter Garlick, Ifor Dylan Williams

**Cadeirio:** Erddyn Davies

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

### **1. YMDDIHEURIADAU**

Dim

### **2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL**

Dim

### **3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cadarnhawyd cofnodion Mai 2018. Cynnig: Dfydd Iwan  
Eilio: Geraint Strello

### **4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

#### **4.1 Gwirfoddoli i fesur cyflymder yn Llanfaglan**

Mae'r Heddlu yn fodlon cael gwirfoddolwyr i fesur cyflymder ceir yn Llanfaglan. Byddent yn darparu gwn cyflymder a hyfforddiant. Byddai'r Heddlu yn gwneud y gwaith gweinyddol o ddanfôn llythyrau at y rhai hynny sy'n cael eu dal yn goryrru. Ni fyddai yna rym cyfreithiol i'r llythyrau.

Mae angen o leiaf tri o bobl i fod yn gyfrifol am redeg y cynllun. Cytunodd y Cynghorydd Ifor Williams i holi am wirfoddolwyr, ac o bosibl gydweithio gyda phentref Saron.

#### **4.2 Y Ganolfan, Bontnewydd**

Cyfarfu rhai aelodau er mwn trafod darpariaethau tân Y Ganolfan. Lluniwyd Cynllun Tân, ac mae hwnnw bellach ar gael i ddefnyddwyr Y Ganolfan.

Mae angen prynu a gosod arwyddion Allfanfa Tân ger yr allfanfa dân yn y neuadd a'r prif ddrws fynedfa.

Mynegwyd pryder gan drydydd parti oedd yn gwneud gwaith yn Y Ganolfan fod asbestos yn yr adeilad, yn y defnydd llawr y mae'r gwresogyddion yn y neuadd wedi eu gosod arnynt. Comisiynwyd cwmni arbenigol i ymchwilio ymhellach a sicrhau fod yr holl adeilad yn glir o asbestos. Gobeithir cael canlyniad yr arolwg cyn y cyfarfod nesaf.

#### **4.3 Cadw Cymru'n Daclus**

Cytunodd 8 aelod o'r Cyngor Cymuned i fynd o gwmpas Bontnewydd a Llanfaglan i gasglu sbwriel ddydd Sul, 10 Mehefin. Diolchwyd i Cadw Cymru'n Daclus am roi benthyg offer priodol.

#### **4.4 Ffordd Osgoi Bontnewydd**

Cyheddodd Llywodraeth Cymru y bydd y ffordd osgoi yn mynd yn ei blaen a'r gwaith yn dechrau yn ystod gaeaf 2018. Oherwydd yr oedi, mae cost y ffordd wedi cynyddu o £90m i £135m.

Ni wnaeth Llywodraeth Cymru ond gyrru llythyr safonol oedd yn mynd i bawb oedd wedi gohebu gyda hwy am y ffordd osgoi, fel ymateb i lythyr diweddar gan y Clerc yn gofyn am eglurhad am nifer o agweddau am y ffordd osgoi, gan gynnwys yr oedi o rai blynyddoedd, a chynnydd sylweddol o rai degau o filiynau yn y gost.

Awgrymodd y Cynghorydd Dafydd Iwan fod cynrychiolydd gwaith adeiladu'r ffordd osgoi yn dod i siard efo'r Cyngor Cymuned bob ychydig fisoedd wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Hefyd dylid atgoffa Llywodraeth Cymru maes o law am y gweliannau y maent wedi gaddo eu gwneud i'r ffordd ym mhentref Bontnewydd, e.e. parcio ceir a diwygio'r gylchdro i'r ffordd ym Montnewydd, wedi l'r ffordd osgoi agor.

### **5. MATERION ARIANNOL**

#### **5.1 Cyflog a Chostau Clerc Mai 2018**

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00 y mis

**Cyfanswm Gros** £253.18 y mis

**Cyfanswm Net** £211.58 y mis

#### **5.2 Derbyn ad-daliad TAW 2017-18 £542.00 Costau postio**

#### **5.3 Balans yn y Banc 4 Mehefin 2018 £18,948.15**

### **6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL**

Dim

### **7. GOHEBIAETH**

Dim

### **8. MATERION ERAILL**

#### **8.1 Torri gwair croesffordd Rhos Bach**

Nid yw'r gwair wrth ymyl croesffordd Rhos bacha ar y lôn o Fontnewydd i Gaethro wedi ei dorri gan wneud gwelediad yn anodd wrth dynnu allan.

Y Clerc i ofyn i Gyngor Gwynedd dorri'r gwair.

## **8.2 Afon Gwyrfaï yn llenwi efo cerrig**

Mynegodd y Cyngorydd Geraint Strello bryder fod afon Gwyrfaï yn brysur llenwi efo cerrig. Mae hyn yn enwedig i lawr o Fontnewydd I gyfeiriad Llanfaglan, a gallai olygu problemau lligfogydd yn y gaeaf wrth i lif yr afon gael ei gaethiwo, gan olygu fod dwr un ai'n gorlifo yn y fan hyn neu'n cael ei wthio'n ôl i gyfeiriad Bontnewydd gan olygu problemau yn y fan honno.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru i drefnu ymweliad safle.

## **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**5 Gorffennaf** 2018 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd

